# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)14-07**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 20 Tachwedd 2007

**Amser:** 8.30am

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod y Pedwerydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Marc Wyn Jones, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)13-07 (cofnodion drafft) - dydd Mawrth 13 Tachwedd 2007**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar ffurf ddrafft. Ni chafwyd unrhyw sylwadau felly caiff y cofnodion eu cyfieithu a'u cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes y dyfodol**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)14-07(p1)**

3.1 Nododd y Pwyllgor drefn y busnes i'w drafod ar 20 a 21 Tachwedd 2007.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor na fyddai'r Cyfnod Pleidleisio'n cael ei gynnal cyn 5pm ddydd Mercher ar gyfer busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**Amserlen dair wythnos ar gyfer Busnes y Llywodraeth - BC(3)14-07(p2)**

3.3 Nododd y Pwyllgor yr amserlen dair wythnos ar gyfer Busnes y Llywodraeth.

**Amserlen dair wythnos ar gyfer Busnes y Cynulliad a Busnes heblaw Busnes y Llywodraeth - BC(3)14-07(p3)**

3.4 Bu i'r Pwyllgor bennu trefn Busnes y Cynulliad.

3.5 Bu i'r Pwyllgor bennu trefn Busnes heblaw Busnes y Llywodraeth.

**4. Mesurau Cynulliad**

**Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007 - BC(3)14-07(p4)**

4.1 Bu i'r Pwyllgor ystyried cais gan y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007 i estyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad y Pwyllgor. Cytunodd y Pwyllgor i ddychwelyd at y mater yn ei gyfarfod nesaf ar ôl trafod ymhellach.

**5. Y Pwyllgorau**

**Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cynaliadwyedd - BC(3)14-07(p5)**

5.1 Bu i'r Pwyllgor Busnes ystyried llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cynaliadwyedd yn gofyn am ddadleuon am yr adroddiadau ar ei ymchwiliad ym maes gostwng carbon. Cytunodd y Pwyllgor y dylid trefnu dadleuon pan fydd y Llywodraeth wedi ymateb i adroddiadau'r Pwyllgor.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**